**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau , Dydd Llun, 5 Hydref 2020**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Oherwydd ymrwymiadau gwaith ni allai'r Cynghorydd Paul Penlington (Prif Lofnodwr ar gyfer Eitem Busnes 4) fynychu i gyflwyno ei gais i gael penderfyniad gan y Cabinet, er fe ymunodd â'r cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth ar yr eitem busnes. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Mae'r aelodau canlynol yn datgan diddordeb yn eitem 4 ar y Rhaglen sef Adolygu Penderfyniad y Cabinet ar Gynigion Band B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif -<br><br>Y Cynghorydd Meirick Davies – Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Rhiant Ysgol Brynhyfryd / Llywodraethwr Ysgol Pen Barras<br>Y Cynghorydd Hugh Irving - Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Prestatyn<br>Y Cynghorydd Merfyn Parry - Llywodraethwr Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor<br>Y Cynghorydd Arwel Roberts - Llywodraethwr Ysgol y Castell<br>Aelod Cyfetholedig Neil Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Parc<br>Y Cynghorydd Peter Scott – Llywodraethwr Ysgol Babanod Llanelwy<br>Y Cynghorydd Glenn Swingler – Llywodraethwr Ysgol Pendref<br>Y Cynghorydd Graham Timms – Ysgol Dinas Brân<br>Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dyma'r Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod ail gais galw i mewn am benderfyniad gan y Cabinet wedi'i dderbyn ar ôl cyhoeddi rhaglen a phapurau ar gyfer y cyfarfod presennol. Gyda'r bwriad o hwyluso'r ail gais am alw i mewn o fewn yr amserlen wedi'i nodi yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor cytunwyd i'r mater i gael ei drafod yn y cyfarfod presennol fel eitem fusnes brys. |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | O ganlyniad mae papurau atodol yn berthnasol i'r cais a phenderfyniad y Cabinet ar 22 Medi 2020 i gael gwared ar dir cyfagos i Ysgol Pendref, Dinbych wedi cael ei gyhoeddi ar 1 Hydref 2020 ac yn cael ei ystyried o dan eitem busnes 5 yn y cyfarfod presennol. |
| **4** | ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD A RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B | Y Pwyllgor:<br><br>***Wedi Penderfynu:*** ***bod gwybodaeth fanwl yn cael ei ddarparu i'r holl gynghorwyr sir erbyn dechrau 2021 ar raglen ysgolion yr 21ain ganrif, i gynnwys -***<br>***(i) cefndir y cyllid a'r broses flaenoriaethu i benderfynu pa ysgolion sydd yn deilwng i elw o fuddsoddiad a phryd;***<br>***(ii) manylion o'r buddsoddiad sydd wedi'i wneud yn barod yn ysgolion y sir a'r sefyllfa bresennol; ac***<br>***(iii)amlinelliad eglur o gynlluniau'r dyfodol, yn ddarostyngedig i argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor, i wneud ysgolion Cyngor Sir Ddinbych yn addas ar gyfer y 21ain Ganrif***<br><br>Gyda'r Pwyllgor yn cytuno i'r penderfyniad uchod dyma'r llofnodwyr ar gyfer y cais galw i mewn yn nodi eu bod nhw'n cytuno na ddylai'r cais i adolygu penderfyniad y Cabinet fynd yn ei flaen. |
| **5** | MATERION BRYS: ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD A GWAREDU TIR YN YMYL YSGOL, PENDREF DINBYCH | Y Pwyllgor:<br><br>***Wedi Penderfynu:*** ***i gynnal y penderfyniad a'i argymell i'r Cabinet -***<br><br>***(i) ailymweld â'r penderfyniad o ran y weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy yn y dyfodol fel y manylir yn y fframwaith datblygu*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***cenedlaethol newydd drafft 'Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040';*** <br> ***(ii) felly gohirio'r penderfyniad yn berthnasol i'r safle penodol hwn am 12 mis nes eu bod wedi cytuno ar y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd;*** <br> ***(iii) ystyried y dewisiadau i wneud y tir yn fwy deniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai drwy eu rhannu i fyny yn lecynnau/plotiau llai; ac*** <br> ***(iv)ddim yn creu gorgyflenwad o gartrefi sy'n rhy ddrud yn Ninbych ac sydd ddim yn cwrdd â'r galw lleol*** |